## Cyngor Sir Ynys Môn

**Diweddariad ar raglen waith perfformiad ar gyfer Pwyllgor Archwilio 23 Medi 2015**

## Astudiaethau Llywodraeth Leol – Diweddariad Awst 2015

Mae'r rhan hon o'r briffio yn darparu diweddariad ar gyflenwi rhaglen astudiaethau Llywodraeth Leol Cymru Gyfan a phrosiectau eraill a reolir yn ganolog. Mae pob astudiaeth yn ymwneud â llywodraeth leol yn unig oni bai bod y sylwebaeth isod yn cyfeirio'n benodol at waith ar Barciau Cenedlaethol a/neu Awdurdodau Tân ac Achub.

## 1. Astudiaethau Llywodraeth Leol 2014-15

### Annibyniaeth pobl hŷn

Mae'r adroddiad drafft yn cael ei glirio ar hyn o bryd ac mae i fod i gael ei gyhoeddi ym mis Medi 2015. Cynhaliwyd sesiynau briffio gyda thimau ymgysylltu lleol ac AGGCC, ac mae trafodaeth gyffelyb gyda'r tîm iechyd ar y gweill.

### Cyflawni â Llai – Hamdden

Mae'r adroddiad cenedlaethol wedi ei ddrafftio ac mae'n symud ymlaen trwy ein cam Asesu Ansawdd. Mae briffiau ar y prif ganfyddiadau'n cael eu trefnu ar gyfer y cylch nesaf o gyfarfodydd timau ymgysylltu ym mis Medi 2015.

## 2. Astudiaethau Llywodraeth Leol 2015-16

### Diogelwch Cymunedol

Mae'r gwaith maes wedi dechrau ac mae wedi ei drefnu i gael ei gynnal o fis Awst i fis Tachwedd 2015. Mae'r arolygon astudiaeth i fod i fynd yn fyw ym mis Medi 2015, ac mae'r tîm astudiaeth yn gweithio gydag Adran Gyfathrebu Swyddfa Archwilio Cymru i dynnu sylw dinasyddion at yr arolwg. Safleoedd gwaith maes gogledd Cymru yw Conwy/Sir Ddinbych, Wrecsam, Comisiynydd Heddlu a Throseddu Gogledd Cymru a Bwrdd Cymunedau Diogelach Gogledd Cymru. Bwriedir cyflwyno'r adroddiad cenedlaethol yn ystod gaeaf 2016.

### Agwedd strategol cynghorau at gynhyrchu incwm a chodi tâl

Cyflawnir yr astudiaeth hon dan ein rhaglen flynyddol "cyflawni â llai", a bydd yr astudiaeth yn cynnwys archwiliad o agwedd strategol cynghorau at godi tâl, y broses gymeradwyo ar gyfer pennu ac adolygu taliadau mewn cyngor; effaith codi tâl ar wasanaethau a defnyddwyr gwasanaeth; a'r sail ddeddfwriaethol ar gyfer codi tâl.

Mae briff y prosiect wedi ei ddosbarthu, a chyflwynir yr astudiaeth dan gontract â Grant Thornton.

### Ariannu gwasanaethau trydydd sector gan gynghorau

Hefyd, dan y themâu cyflawni â llai, bydd yr astudiaeth hon yn edrych ar lefel y buddsoddiad yng ngwasanaethau'r sector gwirfoddol, er mwyn meincnodi'r canfyddiadau yn unol ag

adolygiadau Uned Data Llywodraeth Leol a gynhaliwyd ar ran Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru sy'n dyddio o 2001 i 2002. Bydd yr adolygiad yn cynnwys y camau a ddefnyddir i asesu effeithiolrwydd ariannu mewn ardal olrhain, a chytunir ar hyn gyda Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru; adolygu prosesau gwneud penderfyniadau i benderfynu pa un a ddilynir egwyddorion llywodraethu da ar gyfer cyllido gwasanaethau'r trydydd sector.

## 3. Astudiaethau Llywodraeth Leol 2016-17

Rydym wrthi'n datblygu a chwblhau rhestr o bynciau astudiaeth posibl i ymgynghori ar ein rhaglen waith yn y dyfodol. Trafodir y rhaglen ddrafft gyda'r timau ymgysylltu yn y cylch nesaf o gyfarfodydd tîm. Yn dilyn hyn, ymgynghorir â'r awdurdodau lleol.

## 4. Gwaith asesu archwilio gwelliant ar gyfer 2015-16

Mae'r rhan hon o'r briffio yn darparu diweddariad ar y cynnydd ynghylch cyflenwi'r gwaith archwilio ac asesu yn Ynys Môn (bydd rhai astudiaethau hefyd yn cynnwys cynghorau eraill gogledd Cymru a Chymru).

### Archwiliad o asesiad o berfformiad

Archwiliad o gyflawni dyletswydd i gyhoeddi asesiad o berfformiad. Amserlen – Adroddiad i'w gyflwyno ym mis Tachwedd 2015.

### Adolygiad cydnerthedd ariannol

Mwy o waith ar y trefniadau cydnerthedd ariannol yn dilyn ein hadolygiad 2014-15, ac edrych ymlaen at gynigion pennu cyllideb ac arbedion 2016-17. Bydd pwyslais hefyd ar sefyllfa a pholisi cronfeydd a'r defnydd o gronfeydd. Amserlen – Cychwyn a gwneud y gwaith maes ym mis Medi. Adborth lleol erbyn diwedd mis Hydref 2015.

### Adolygiad o lywodraethu

Bydd y gwaith hwn yn canolbwyntio ar feysydd y nodir bod angen eu gwella yn yr adroddiad Asesu Corfforaethol. Amserlen – mis Gorffennaf 2015 i fis Mawrth 2016.

### Adolygiad rheoli perfformiad

Astudiaeth ar draws pob un o chwe chyngor gogledd Cymru ar feincnodi costau gwasanaethau cymdeithasol o'i gymharu â pherfformiad. Bydd hyn yn cynnwys cyfranogiad AGGCC a thrafodaethau gyda staff cyngor. Amserlen - mis Medi i fis Rhagfyr 2015.

### Adolygiad(au) a benderfynwyd yn lleol

Gwaith dilynol ar agweddau y nodwyd bod angen eu gwella yn yr adroddiad Asesu Corfforaethol. Amserlen – mis Gorffennaf 2015 i fis Mawrth 2016. Bydd hyn yn deillio o'r Asesiad Corfforaethol yn dilyn trafodaeth gyda'r Cyngor.

### Adroddiad Gwella Blynyddol

Crynodeb ac asesiad blynyddol gan yr Archwilydd Cyffredinol a rheoleiddwyr eraill.
Amserlen – mis Rhagfyr 2015 i fis Mawrth 2016.

## 5. Gwaith asesu archwilio gwelliant ar gyfer 2014-15

### Asesiad corfforaethol

Cyhoeddir adroddiad drafft yr asesiad corfforaethol erbyn diwedd mis Medi, a bydd yr adroddiad terfynol yn cael ei gyhoeddi yn dilyn adborth gan y Cyngor.

## 6. Astudiaethau Cenedlaethol Gwerth am Arian

Mae tabl ar wahân wedi ei gynhyrchu sy’n nodi’r astudiaethau cenedlaethol a luniwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru neu y mae’n eu cynllunio trwy'r cyfnod 2015-16.

| Ynys Môn | | 2015-16 | | | | Diweddarwyd 150915 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Gweithgareddau a Gynlluniwyd**<br><br>**3.WAO National value-for-money studies** | **Cynnyrch** | **Amserlen cyhoeddi a ragwelir** | | **Statws** | **Swyddog Arwain ar gyfer y Prosiect** | **Cynnydd / Pwyslais**<br><br>**Ariennir Astudiaethau Gwerth am Arian gan y Cynulliad Cenedlaethol** |
| Presgripsiynau meddygon teulu | Adroddiad cenedlaethol | Ebrill i Fehefin 2015 | | Clirio | Swyddfa Archwilio Cymru Canolog | |
| Buddsoddiad Llywodraeth Cymru yn seilwaith band eang ar gyfer y genhedlaeth nesaf | Adroddiad cenedlaethol | Ebrill i Fehefin 2015 | | Cyhoeddwyd | Swyddfa Archwilio Cymru Canolog | Cyhoeddwyd yr Adroddiad ar 28 Mai 2015 |
| Consortia addysg rhanbarthol | Adroddiad cenedlaethol | Ebrill i Fehefin 2015 | | Cyhoeddwyd | Swyddfa Archwilio Cymru Canolog | Cyhoeddwyd yr Adroddiad ar 4 Mehefin 2015 |
| Caffaeliad Llywodraeth Cymru o Faes Awyr Caerdydd | Adroddiad cenedlaethol | Ebrill i Fehefin 2015 | | Clirio | Swyddfa Archwilio Cymru Canolog | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Gwasanaethau rheilffordd | Adroddiad cenedlaethol | Ebrill i Fehefin 2015 | | Clirio | Swyddfa Archwilio Cymru Canolog | |
| Gwasanaethau orthopedig | Adroddiad cenedlaethol | Ebrill i Fehefin 2015 | | Clirio | Swyddfa Archwilio Cymru Canolog | |
| Codio clinigol y GIG | Adroddiad cenedlaethol | haf 2015 | | Ar Waith | Swyddfa Archwilio Cymru Canolog | |
| Rhestrau aros y GIG a phractisiau preifat | Adroddiad cenedlaethol | haf 2015 | | Ar Waith | Swyddfa Archwilio Cymru Canolog | |
| Darlun o wasanaethau cyhoeddus | Adroddiad cenedlaethol | hydref 2015 | | Ar Waith | Swyddfa Archwilio Cymru Canolog | |
| Datblygu Cyfoeth Naturiol Cymru | Adroddiad cenedlaethol | hydref 2015 | | Ar Waith | Swyddfa Archwilio Cymru Canolog | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Cronfa Buddsoddi Cymru mewn Adfywio | Adroddiad cenedlaethol | Cyhoeddi yng Ngorffennaf 2015 | Cyhoeddwyd | Swyddfa Archwilio Cymru Canolog | |
| Cronfa Fuddsoddi Gwyddorau Bywyd Cymru | Adroddiad cenedlaethol | I'w gadarnhau | Cwmpasu | Swyddfa Archwilio Cymru Canolog | |
| Rheoli risg llifogydd ac erydu | Adroddiad cenedlaethol | I'w gadarnhau | Cwmpasu | Swyddfa Archwilio Cymru Canolog | Mae'r adolygiad yn debygol o ganolbwyntio ar lifogydd arfordirol |
| Ymyrraeth Gynnar a Newid Ymddygiad y Cyhoedd | Adroddiad cenedlaethol | I'w gadarnhau | Cwmpasu | Swyddfa Archwilio Cymru Canolog | Yn y tymor byr, rhoddir blaenoriaeth i ddatblygu darlun newydd o adroddiad gwasanaethau cyhoeddus dros y gwaith hwn |
| Ymyriadau Llywodraeth Cymru mewn Llywodraeth Leol | Adroddiad cenedlaethol | I'w gadarnhau | Cwmpasu | Swyddfa Archwilio Cymru Canolog | Ailedrychir ar gynlluniau ar hyn o bryd, o ystyried yr adolygiad a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru o'r ymyriad yn Ynys Môn gan Sefydliad Polisi Cyhoeddus Cymru |
| Ymatebion Llywodraeth Cymru i argymhellion archwilio | Adroddiad cenedlaethol | I'w gadarnhau | Cwmpasu | Swyddfa Archwilio Cymru | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | Canolog | |
| Caffael cyhoeddus a'r Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol | Adroddiad cenedlaethol | I'w gadarnhau | Cwmpasu | Swyddfa Archwilio Cymru Canolog | |